**AC-03-01 (min)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

| |
|---|
| **Dyddiad:** 29 Mawrth 2001 |
| **Amser:** 2pm |
| **Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Presennol: Aelodau** |
| Janet Davies (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory Ogwr |
| Alison Halford Delyn |
| Ann Jones Dyffryn Clwyd |
| Dafydd Wigley Caernarfon |
| |
| **Swyddogion** |
| Sir John Bourn Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Ian Summers Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Dave Powell Swyddog Cydymffurfiaeth y |
| Cynulliad Cenedlaethol |

Russell Keith Clerc y Pwyllgor

Julie Bragg Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem Agenda 1 : Sesiwn Casglu Tystiolaeth**

**Papur:** AC-03-01 (p.1)

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams. Gwaharddwyd Peter Law rhag cymryd rhan yn y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 12.7. Cymerodd Janice Gregory le Lynne Neagle.

- Casglwyd tystiolaeth gan y Pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sef *Cyfrifon Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1999-2000* a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2001 ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Tystion**

Mr Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr David Richards Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr Laurie Pavelin Prif Gyfrifydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Atodir trawsysgrif gair-am-air o’r eitem hon i’r cofnodion hyn.

**Eitem Agenda 2 : Sesiwn Casglu Tystiolaeth**

**Papur:** AC-03-01 (p.2)

1. Casglwyd tystiolaeth gan y Pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol sef Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000 a gyhoeddwyd ar 22 Mawrth 2001.

**Tystion**

Mr Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr David Richards Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr Laurie Pavelin Prif Gyfrifydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Atodir trawsysgrif gair-am-air o’r eitem hon i’r cofnodion hyn.

**Eitem Agenda 3 : Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**Papur:** AC-02-01 (min)

1. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, yn amodol ar ddau newid i fanylion yr aelodau oedd yn bresennol.

- Nid oedd yr aelodau yn dymuno codi unrhyw faterion mewn perthynas â’r papurau i’w nodi ar gyfer y cyfarfod hwn.

- Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 3 Mai. Byddai ansicrwydd yngl•n â'r dyddiad hwn pe bai Etholiad Cyffredinol yn cael ei alw ar gyfer y diwrnod hwnnw gan fod yr aelodau wedi nodi na fyddai'n bosibl iddynt fynychu'r cyfarfod. Nodwyd 10 Mai 2001 fel dyddiad tebygol arall.

- Codwyd y broblem o gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ar brynhawn Iau gan y Cadeirydd. Byddai aelodau wedi bod yn bresennol yn sesiwn lawn y Cynulliad yn y bore ac roedd hyd y sesiwn hon yn cynyddu fwyfwy, gyda sesiwn y diwrnod hwnnw yn dod i ben 20 munud cyn dechrau gweithrediadau'r Pwyllgor. O ganlyniad, mae'n bosibl na fyddai'r aelodau yn gallu gwneud cyfiawnder â'r pynciau trafod yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Dywedodd yr aelodau fod hyn yn wir yn broblem a chytunwyd gyda chynnig y Cadeirydd i ysgrifennu at y Llywydd a Rheolwr Busnes y Cynulliad i ofyn iddynt ystyried aildrefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

**Eitem Agenda 4 : Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio ar *Mynediad i Gofnodion a Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru***

1. Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

*"Gall pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:*

vi. *lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson."*

1. Ystyriwyd yr adroddiad drafft gan yr aelodau a chytunwyd ar ei gynnwys.

| |
|---|
| • Nododd yr aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf Julie Bragg fel Dirprwy Glerc a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth ardderchog. |
| |
| • Daeth y cyfarfod i ben am 4.30pm. |